

## Cefnywaun

Ar ôl yr oedfa yn Neiniolen, nos Sul nesaf Chwefror 18, bwriedir cael cyfarfod byr i roi gwybod i aelodau Cefnywaun am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch adeiladau Ebeneser.

## Banc Bwyd

Mae'r bocs diweddaraf o fwyd wedi ei anfon o Gapel Coch i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Diolch i Valerie Jones am fynd â'r bwydydd yno unwaith eto. Mae'r cerdyn o ddiolch a dderbyniwyd am ein cefnogaeth i'r Banc Bwyd wedi ei osod ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y Capel i chi gael ei weld. Diolch i bawb sy'n rhoi nwyddau yn y bocs yn gyson.

## Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd



Bydd aelodau'r eglwysi yn Neiniolen yn cynnal Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn festri Ebeneser am 6.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 2.

Gwragedd o eglwysi yn Suriname, yng ngogledd ddwyrain De America sydd wedi paratoi'r gwasanaeth eleni, a'r thema fydd 'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd'.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Chwefror 11

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

#### Chwefror 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Chwefror 25

5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

## Cyhoeddiadau

**CEFNYWAUN AC EBENESER**  
**Dydd Sul, Chwefror 18:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

**CAPEL COCH A NANT PADARN**  
**Dydd Mawrth, Chwefror 13:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 16:** Bydd y Cwrs Ieuencid yng Ngholeg y Bala: bws yn cychwyn am 4.10 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 18:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangedfni. Ni fydd Ysgol Sul.

### CARMEL

**Nos Wener, Chwefror 16:** Cynhelir Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 18:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Chwefror 18:** Ni fydd Ysgol Sul. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr T. Alun Williams, Caernarfon.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 18:** Ni fydd oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Chwefror 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Chwefror 18

10.00 a.m. - Mr Huw Tegid Roberts  
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL

#### Chwefror 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

Rhif 759  
11 Chwefror, 2018  
**Gronyn**

## Yr Ynyd

'Dydd Mawrth Ynyd,  
crempog bob munud.'

Wn i ddim pwy bia'r cwpled, ond rwy'n ddiolchgar am yr awgrym ac yn gobeithio cael crempog neu fwy ddydd Mawrth. Daeth y diwrnod hwn yn fuan eleni am fod y Pasg yn gymharol fuan.

Hen air dieithr ydi 'ynydd' erbyn hyn. Ar wahân i'r ymadrodd 'dydd Mawrth Ynyd', oes unrhyw ddefnydd arno? Glywsoch chi sôn am 'wneud ynyd' a 'hel ynyd' a hyd yn oed 'iâr ynyd'? Chlywais i ddim (ac mae fy iaith yn dlotach o'r herwydd). Ac o gofio mai am 'ddydd Mawrth Crempog' y bydd y mwyafrif ohonom yn sôn, ai gormod dweud fod y gair 'ynydd' wedi diflannu?

Benthyciad o'r gair Lladin *initium* ydi 'ynydd'. Nid bod gwybod hynny o help chwaith os ydym wedi anghofio popeth o'r gwersi Lladin ers talwm (os ydym yn ddigon hen i fod wedi cael gwersi Lladin wrth gwrs!) Ystyr *initium* yw 'dechreuad', ac o'r un gair y daeth y gair 'initial' i'r Saesneg. Dydd Mawrth Ynyd yw Dydd Mawrth Dechreuad. Ond dechrau beth? Dechrau tymor y Grawys, sef y deugain niwrnod (heb gyfiri'r Suliau) o ddydd Mercher y Llundw (drannoeth dydd Mawrth Ynyd) hyd Sadwrn y Pasg.

Mae'r Grawys yn nodi'r deugain niwrnod y bu Iesu yn yr anialwch. Wrth ymatal dros gyfnod y Grawys rhag bwyta pethau (yn draddodiadol, braster, wyau a chynnyrch llaeth), mae



Cristnogion, fel rhan o'u disgyblaeth Gristnogol, yn ceisio efelychu Iesu. [Gwnaed crempogau â'r nwyddau hyn ar Ddydd Mawrth Ynyd gan sa fyddid eu hangen dros yr wythnosau dilynol.] Ond yr oedd mwy i'r Ynyd a'r Grawys nag efelychu Iesu trwy ymwadu â'r hunan. Pwrpas cadw defod y Grawys oedd helpu'r Cristion i gyffesu bai a gwneud penyd amdano er mwyn cael maddeuant. Dyna mewn gwirionedd y tair elfen sydd i'r gair Saesneg 'shrive' a geir yn 'Shrove Tuesday'.

Adweithio yn erbyn y perygl o wneud defodau'n sylfaen y bywyd Cristnogol a wnaeth yr Anghydfurfwr wrth beidio â gorbwysleisio'r Grawys a rhai o wyliau eraill yr Eglwys. Roedd pob awgrym y gallwn wneud penyd am ein pechodau ac ennill maddeuant yn wrthun iddynt. Nid trwy ymatal rhag bwyta, na thrwy gosbi'r hunan mewn unrhyw ffordd, y daw maddeuant ond trwy ffydd yn Iesu, a ddiodeffod ac a fu farw trosom. Beth bynnag a wnawn y Grawys hwn wrth baratoi ar gyfer y Pasg, cofiwn nad defodau, ond y Crist y rhown ein ffydd ynddo, yw sylfaen a dechrau'r cyfan.

Fel dywed Rhys Nicholas, nid oes raid i ni wneud penyd gan fod Iesu wedi ei wneud yn ein lle.

'Gwn pa fodd y prynodd f'enaid,  
gwn pa fodd y gwnaeth fi'n rhydd,  
dwyn y penyd arno'i hunan,  
marw drosof, cario'r dydd;  
clod a moliant  
fydd yn llanw 'mywyd mwy.'

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn (A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd oedfa'r bore yn oedfa Gymundeb. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Rachub.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam.

Nid oes Ysgol Sul yn Nhalybont heddiw. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

## Cofion

## Balm o Salm



'Y mae'r ARGLWYDD yn frenin; y mae wedi ei **BYW Y BEIBL** wisgo â mawredd, y mae'r ARGLWYDD wedi ei wisgo, a nerth yn wregys iddo. Yn wir, y mae'r byd yn sicr, ac nis symudir; y mae dy orsedd wedi ei sefydlu erioed; yr wyt ti er tragwyddoldeb. Cododd y dyfroedd, O ARGLWYDD, cododd y dyfroedd eu llais, cododd y dyfroedd eu rhu. Cryfach na sŵn dyfroedd mawrion, cryfach na thonnau'r môr, yw'r ARGLWYDD yn yr uchelder. Y mae dy dystiolaethau'n sicr iawn; sancteiddrwydd sy'n gweddu i'th dŷ, O ARGLWYDD, hyd byth' (Salm 93).

## Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Gwyneth Williams, Fferm Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai ddydd Mawrth, Chwefror 6 yn Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair, Mynydd Llandegai ac ym Mynwent Eglwys Santes Ann. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Huw John Hughes a'r Gweinidog.

Wedi ei magu ym Mynydd Llandegai, roedd Mrs Gwyneth Williams wedi byw yno ar hyd ei hoes. Yr oedd yn wraig annwyl a thawel, yn weithwraig galed ac yn gymdoges dda a charedig. Yr oedd yn aelod o eglwys Cefnywaun, a deuai yn ffyddlon i'r oedfaon yn y capel ar hyd y blynyddoedd.. Cofiw'n yn ddiolchgar am wasanaeth ffyddlon ei diweddar bried Clifford Williams i'r eglwys am lawer o flynyddoedd, yn helpu i gadw'r cyfrifon arianno, cyn iddo yn fwy diweddar gael ei ethol yn flaenor. Yr oedd Gwyneth yn

fam a nain a wnaeth ei gorau bob amser dros ei theulu. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul, Ionawr 28 yn 85 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn â Joyce a Martin, ei merch a'i mab yng nghyfraith, ac Emma a Bethan ei hwyresau yn eu colled. Rhosant ofal arbennig iddi dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf wrth i'w hiechyd ddirywio.

## Cymdeithas Undebol

Noson Gwis gafwyd yn y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch nos Fawrth ddiwethaf.

Cafwyd noson hwyliog. Diolch i bawb a fu mor barod i gymryd rhan a rhoi cynnig ar ateb y cwestiynau. Ymddiheuriadau os oedden nhw'n rhy anodd, neu'n rhy hawdd!

Os oes rhywun arall am fynd i'r Cwrs Ieuencid (blwyddyn ysgol 7-11) yng Ngholeg y Bala ddiwedd o'r nos Wener nesaf yma hyd ddyd Sul (Chwefror 16-18), rhowch wybod i'r Gweinidog erbyn heno. Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 4.10 o'r gloch ddydd Gwener (o'r maes parcio ar lan y Llyn (dros ffordd i Glwb Cymdeithasol Llanberis). Gofynnir am £5 ychwanegol yr un at gost y bws.

